**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**CLA484 - Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014**

**Gweithdrefn**: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd). Maent yn cydgrynhoi'r holl ddiwygiadau blaenorol ac yn egluro'r diffiniadau o gyrff perthnasol llai a mwy o ran maint, a'r arferion archwilio sy'n berthnasol iddynt

## 1. Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## 2. Craffu: Rhinweddau

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3(ii) sef ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Mae rheoliad 9 yn darparu bod yn rhaid i'r datganiad cyfrifon y mae'n ofynnol i awdurdod perthnasol mwy ei baratoi gynnwys (ymhlith pethau eraill) nodyn o dâl a chyfraniad yr awdurdod perthnasol at bensiynau uwch-gyflogeion neu swyddogion heddlu perthnasol. Nodir unigolion y mae eu cyflog yn fwy na £150,000 y flwyddyn wrth eu henwau; mae rheoliad 9(5) yn darparu bod yn rhaid rhestru'r personau y nodir eu tâl felly yn unigol a'u nodi wrth deitl swydd yn unig. Fodd bynnag, trwy wneud hyn, mae'n bosibl y bydd modd canfod pwy yw'r rhai sydd yn yr ail gategori, ac mae hyn yn arwain at bryderon ynghylch diogelu data ac anghydnawsedd â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol.

Nid yw'r egwyddor sy'n sail i'r ddarpariaeth yn newydd. Cafwyd gofynion tebyg yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 (ac mewn rheoliadau diwygio dilynol).

**CLA(4)-02-15**

Daeth y ddarpariaeth hon i rym mewn rheoliadau cyfrifon ac archwilio am y tro cyntaf yn 2009, yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygiad Rhif 2) (Lloegr) 2009; a chafwyd yr un ddarpariaeth yn rheoliadau Cymru yn 2010.

Yn 2009, ystyriodd y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol Reoliadau 2009; ni chyflwynwyd adroddiad ar y rheoliadau.  Efallai y bydd y darn canlynol o'r Memorandwm Esboniadol, a osodwyd gyda Rheoliadau 2009, yn ddefnyddiol i'r Aelodau o ran gwybodaeth.

> "Of particular relevance to the Government's consideration of the content of the Regulations was the response from the Information Commissioner's Office (ICO). In the ICO's response, it was noted that the Commissioner encourages public authorities to publish information pro-actively wherever possible, including certain information about staff costs. The Commissioner did not foresee that the proposals would be incompatible with the Data Protection Act, and envisaged that section 34 of that Act would apply. The Commissioner agreed that public sector workers who are responsible for major policy decisions and the spending of public money should expect some scrutiny of their pay, and supported the detailed reporting of remuneration as proposed, but sounded a note of caution that such disclosure should not be misleading. Disclosure should provide transparency about the expenditure of public money, not an employee's purely private financial affairs".

Er gwaethaf y materion posibl ynghylch diogelu data a hawliau dynol a godir yn y ddarpariaeth hon, efallai y bydd yr Aelodau o'r farn bod rhaid cadw'r ddysgl yn wastad rhwng y budd i'r cyhoedd o ran atebolrwydd cyrff cyhoeddus sy'n gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys tâl i weithwyr yn y sector cyhoeddus, a diogelu gwybodaeth breifat a buddiannau preifat y personau dan sylw mewn perthynas â diogelu gwybodaeth breifat.

**CLA(4)-02-15**

## 3. Ymateb y Llywodraeth

Mae'r Llywodraeth yn nodi'r pwyntiau a wneir yn yr adroddiad drafft hwn, a hoffai ddiolch i'r Pwyllgor am ei ddwyn i'w sylw.

Rhagdybir mai Erthygl 8 o hawliau'r Confensiwn sydd mewn golwg gan y cynghorwyr cyfreithiol, sy'n datgan–

**Article 8 – Right to respect for private and family life**

1. Everyone has the right to respect for his private and family life, his home and his correspondence.
2. There shall be no interference by a public authority with the exercise of this right except such as is in accordance with the law and is necessary in a democratic society in the interests of national security, public safety or the economic well-being of the country, for the prevention of disorder or crime, for the protection of health or morals, or for the protection of the rights and freedoms of others.

Y ddarpariaeth yn y Rheoliadau y mae cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor yn pryderu yn ei chylch yw rheoliad 9 (datganiad o dâl) a pharagraff (5) yn benodol, sy'n dweud –

(5) Rhaid rhestru'r personau [cyflogeion hŷn a swyddogion heddlu perthnasol] y mae eu tâl i gael ei nodi o dan baragraff (4) yn unigol a'u dynodi drwy enw'r swydd yn unig, ac eithrio bod yn rhaid dynodi'r personau hynny y mae eu cyflog yn £150,000 y flwyddyn neu fwy wrth eu henw hefyd.

Felly, er enghraifft, rhaid i brif weithredwr awdurdod lleol y mae ei gyflog yn fwy na £150,000 gael ei restru'n unigol a'i enwi yn y datganiad o dâl. Yn ogystal â hynny, byddai'n gymharol rwydd i aelod o'r cyhoedd ddefnyddio'r datganiad o dâl i ganfod amrediad cyflog cyflogeion hŷn eraill mewn awdurdodau lleol a darganfod eu henwau drwy ddulliau eraill.

Byddai'r datganiad o dâl yn cyd-fynd â'r datganiad blynyddol o gyfrifon y bydd prif swyddog ariannol yr awdurdod yn ei baratoi er mwyn i'r awdurdod ei gymeradwyo, cyn ei gyflwyno ar gyfer ei archwilio.

<u>Cefndir y ddarpariaeth yn rheoliad 9</u>

Nid yw'r ddarpariaeth yn rheoliad 9 yn newydd.

(a) Cafodd y ddarpariaeth hon ei deddfu mewn rheoliadau cyfrifon ac archwilio am y tro cyntaf yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio Rhif 2) (Lloegr) 2009 (2009 Rhif 3322).

(b) Cafodd yr un ddarpariaeth ei mewnosod yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 drwy ddiwygio Rheoliadau yn 2010.

(c) Roedd Deddf Lleoliaeth 2011 yn cynnwys darpariaeth bellach ynghylch cyflogau cyflogeion awdurdod lleol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi datganiad polisi tâl bob blwyddyn, sy'n amlinellu polisïau'r awdurdod ar gyfer y flwyddyn gan ymwneud, ymysg pethau eraill, â thâl ei brif swyddogion. Yn benodol, rhaid i'r datganiad gynnwys polisïau'r awdurdod yn ymwneud ag:

(i) lefel ac elfennau tâl pob prif swyddog,
(ii) tâl prif swyddogion wrth gael eu recriwtio,
(iii) unrhyw gynnydd ac ychwanegiad i dâl pob prif swyddog,
(iv) y defnydd o dâl ar sail perfformiad ar gyfer prif swyddogion,
(v) y defnydd o fonysau ar gyfer prif swyddogion,
(vi) y dull o dalu prif swyddogion pan fyddant yn rhoi'r gorau i ddal swydd yn yr awdurdod, neu gael eu cyflogi ganddo, a
(vii) cyhoeddi gwybodaeth a mynediad i wybodaeth sy'n ymwneud â thâl prif swyddogion.

Pan gafodd darpariaeth rheoliad 9 ei deddfu am y tro cyntaf, darparodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddadansoddiad llawn o'r ddadl ynghylch preifatrwydd yn ei Memorandwm Esboniadol. Yn benodol, dywedwyd am y ddarpariaeth-

(a) nad oedd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o'r farn ei bod yn anghydnaws â'r Ddeddf Diogelu Data (a bod adran 34 o'r Ddeddf honno'n gymwys);
(b) ei bod yn debyg i safonau sy'n ofynnol ar gyfer byrddau rheoli yn y gwasanaeth sifil neu gwmnïau preifat rhestredig.

At hynny, ni chyflwynodd y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol adroddiad ar Reoliadau 2009 yn Lloegr. Ni chyflwynodd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol adroddiad ychwaith pan gyflwynodd Rheoliadau 2010 y ddarpariaeth ynghylch cyflogau yng Nghymru.

<u>Rhesymeg</u>

Mae'n amlwg fod lefel y cyflogau a delir i uwch swyddogion cyhoeddus wedi bod yn destun pryder i'r cyhoedd ers rhai blynyddoedd, ac yn dal i fod felly. Wrth i wariant cyhoeddus ostwng ac wrth i'r economi ddirywio, mae'n gwbl amlwg fod datgelu tâl uwch swyddogion awdurdod lleol (a swyddogion heddlu perthnasol), yn ogystal ag enwi'r swyddogion hynny, mewn rhai achosion -

(i) yn bodloni egwyddorion gweithredu'n dryloyw ac adrodd yn briodol ar wariant cyhoeddus,
(ii) er budd y cyhoedd, a
(iii) yn gymesur.

Mae angen tryloywder ac adrodd yn briodol ar wariant cyhoeddus mewn cymdeithas ddemocrataidd, a hynny er budd lles economaidd y wlad. Mae'r tryloywder hwnnw'n ymestyn i ddarparu enwau'r rheini y telir cyflogau cymharol fawr iddynt.

Mae rheoliad 9, felly, yn unol â'r gyfraith, yn ceisio cyflawni nod gyfreithlon, ac yn gymesur. O ganlyniad, nid yw'n anghydnaws ag Erthygl 8 o'r Confensiwn ar Hawliau Dynol na'r Ddeddf Diogelu Data.

## 4. Ystyriaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2015 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd yn adran 2 uchod ar rinweddau.